# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**2013 dccc 1**

## RHAN 3

TREFNIADAETH YSGOLION

## PENNOD 2

CYNIGION TREFNIADAETH YSGOLION

*Cyhoeddi, ymgynghori a gwrthwynebu*

### 48 Cyhoeddi ac ymgynghori

(1) Rhaid i gynigydd gyhoeddi cynigion a wneir o dan y Bennod hon yn unol â'r Cod.

(2) Cyn cyhoeddi cynigion a wneir o dan y Bennod hon, rhaid i gynigydd ymgynghori ynglyn â'i gynigion yn unol â'r Cod.

(3) Nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys i gynigion i derfynu ysgol sy'n ysgol fach (gweler adran 56).

(4) Cyn diwedd 7 niwrnod gan ddechrau ar ddiwrnod eu cyhoeddi, rhaid i'r cynigydd anfon copïau o'r cynigion cyhoeddedig—

(a) at Weinidogion Cymru, a

(b) at yr awdurdod lleol (os nad hwnnw yw'r cynigydd) sy'n cynnal, neu y cynigir ei fod yn cynnal, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi.

(5) Rhaid i'r cynigydd gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghori y mae wedi ei wneud yn unol â'r Cod.

## 49 Gwrthwynebu

(1) Caiff unrhyw berson wrthwynebu cynigion a gyhoeddir o dan adran 48.

(2) Rhaid i wrthwynebiadau gael eu hanfon yn ysgrifenedig at y cynigydd cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y cafodd y cynigion eu cyhoeddi ("y cyfnod gwrthwynebu").

(3) Rhaid i'r cynigydd gyhoeddi crynodeb o'r holl wrthwynebiadau a wnaed yn unol ag isadran (2) (ac nas tynnwyd yn eu hôl) a'i ymateb i'r gwrthwynebiadau hynny—

(a) yn achos awdurdod lleol y mae'n ofynnol iddo benderfynu ar ei gynigion ei hun o dan adran 53, cyn diwedd 7 niwrnod gan ddechrau ar ddiwrnod ei benderfyniad o dan adran 53(1), a

(b) ym mhob achos arall, cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y mae'r cyfnod gwrthwynebu'n dod i ben.